



Feirws COVID-19

Presenoldeb o Bell mewn Cyfarfodydd

Canllaw i Gynghorwyr

Gorffennaf 2020

Cyflwyniad

Ers dechrau'r cyfnod pan mae Covid wedi effeithio arnom, mae Cynghorau Cymru wedi bod yn gweithio'n galed i gynnal trefniadau llywodraethu effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau newydd ar gyfer cynnal cyfarfodydd o bell, a gaiff eu galluogi gan reoliadau cyfarfodydd newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Daeth Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 i rym ar 22 Ebrill 2020. Mae'r rheoliadau a datganiad gan y Gweinidog i'w gweld [yma](#). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau pellach am gyfarfodydd o bell [yma](#), sy'n mynd i'r afael â rhai o'r mân faterion neu faterion technegol sy'n ymwneud â rheoliadau mis Ebrill.

Mae'r Rheoliadau yn berthnasol i Brif Gynghorau, Cynghorau Cymuned, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe. Mae disgwyliad gan Lywodraeth Cymru y bydd cynghorau'n defnyddio'r ddeddfwriaeth alluogol hon i ddychwelyd i gyflawni eu busnes o bell cyn gynted ag sy'n bosibl.

Bydd swyddogion Monitro ac arweinwyr Gwasanaethau Democraidd yn gallu rhoi mwy o fanylion i aelodau am y rheoliadau hyn a sut mae'r rhain yn berthnasol ac yn cael eu rhoi ar waith yn lleol. Fodd bynnag, yn fras, mae'r rheoliadau yn nodi'r canlynol:

Presenoldeb o bell

Gall pob aelod gymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell. Mae hyn yn berthnasol i gyfarfodydd a gynhelir cyn 1 Mai 2021. Cyfranogiad sain fydd yr unig ofyniad. Dylai aelodau allu siarad a chlywed ei gilydd. Mae'r hyblygrwydd hwn yn golygu bod cynghorau wedi gallu ailgyflwyno cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar faterion brys sy'n ymwneud â Covid 19 ac maen nhw'n cyflwyno amrywiaeth lawn o swyddogaethau dros y misoedd nesaf.

Cyfarfodydd Blynyddol

Os na fydd cyngor wedi cynnal Cyfarfod Blynyddol ar neu ar ôl 1 Mawrth neu cyn 22 Ebrill 2020, gellir cynnal y cyfarfod ar unrhyw ddyddiad yn 2020. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau na chafodd Gyfarfod Blynyddol cyn y cyfnod clo yn bwriadu cynnal un yn yr Hydref.

Cyfarfodydd eraill

Gellir cynnal cyfarfodydd eraill a fyddai angen eu cynnal ar adegau penodol yng nghalendr y cyngor ar unrhyw adeg cyn 1 Mai 2021 bellach.

Presenoldeb mewn cyfarfodydd (Y "Rheol Chwe Mis")

Mae'r rheol sy'n anghymhwysu aelodau am fethu â mynychu cyfarfod mewn cyfnod chwe mis wedi'i hatal o 22 Ebrill 2020. Bydd yr amser a gaiff ei gyfrif yn aildechrau o'r dyddiad y disgwylir i aelod fynychu cyfarfod ar ôl y cyfnod a effeithiwyd gan Covid.

Ethol cadeiryddion

Os na fydd cadeirydd newydd i gyngor neu bwyllgor (neu swydd debyg fel is-gadeirydd, cynrychiolydd ar gorff allanol) wedi'i ethol mewn Cyfarfod Blyneddol a gynhaliwyd cyn 22 Ebrill 2020, gall y cadeirydd presennol aros yn ei swydd tan 1 Mai 2021.

Galwadau i gyfarfodydd

Gellir galw aelodau i gyfarfodydd trwy ohebiaeth electronig nawr.

Presenoldeb gan y cyhoedd

Er na fydd yn ymarferol bob amser, dylid trefnu ffordd i'r cyhoedd wyllo neu wrando ar unrhyw gyfarfodydd lle bynnag bo'n bosibl.

Pan fydd y cyhoedd yn cael eu gwahodd, dylai hyn ddigwydd yn electronig 3 diwrnod clir cyn y caiff y cyfarfod ei gynnal. Neu os caiff y cyfarfod ei alw ar fyr rybudd, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Papurau cyfarfodydd

Dylid cyhoeddi nodyn am drafodion cyfarfod yn electronig o fewn 5 diwrnod i ddyddiad cynnal y cyfarfod. Dylai'r nodyn hwn gynnwys rhestr o bobl sy'n bresennol, datganiadau cysylltiad, unrhyw benderfyniadau a wnaed (ar wahân i eitemau wedi'u heithrio) a chanlyniadau unrhyw bleidleisiau.

Penderfyniadau gweithredol

Pan gaiff penderfyniad ei wneud gan y Pwyllgor Gweithredol neu aelodau unigol o bwyllgorau gweithredol, dylai unrhyw ddatganiadau neu adroddiadau ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r penderfyniad gael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor.

Cynllunio

Gellir dirprwyo aelodau ar bwyllgorau cynllunio nawr.

Mae llawer o gynghorau eisoes wedi cytuno ar ddirprwyaethau brys o ran arweinwyr, cabinetau ac uwch swyddogion yn eu cyfansoddiadau, i ddelio gyda'r sefyllfa frys barhaus. Er y bydd y rheoliadau newydd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran rheoli busnes y cyngor, mae adnoddau a staff cynghorau wedi eu newid a'u hail flaenoriaethu er mwyn ymateb i bandemig y Coronafeirws. Dylai Aelodau felly gofio mai dim ond er mwyn gwneud penderfyniadau ar faterion brys a materion busnes hanfodol bwysig y bydd cyfarfodydd yn debygol o gael eu cynnal, hyd nes bydd y pandemig yn gostegu. Mae'n bosib fod staff Cynghorau, gan gynnwys staff democrataidd, craffu a phwyllgorau wedi eu hadleoli i gynorthwyo gwasanaethau rheng flaen, felly bydd ymchwil ac adroddiadau yn gyfyngedig a bydd yn rhaid eu blaenoriaethu yn ddibynnol ar anghenion busnes.

Bydd cynghorau gwahanol yn defnyddio technoleg wahanol i gyfarfod a byddant yn gallu rhoi arweiniad i aelodau ar sut i'w defnyddio. Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi gwybodaeth am yr amrywiaeth o feddalwedd cyfarfodydd sydd ar gael [yma](#). Mae cynghorau yn parhau â threfniadau darlledu nawr, neu yn eu cyflwyno, fel bod modd gwyllo cyfarfodydd ar wefannau'r cyngor wrth iddynt ddigwydd, neu yn fuan wedyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda CLILC a Chynghorau i adolygu'r gofynion ar gyfer cyfarfodydd a gaiff eu nodi ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Dulliau Cyfarfod a Pharatoi

Yn ystod yr amgylchiadau arbennig presennol, bydd dull a naws cyfarfodydd yn wahanol iawn i gyfarfodydd corfforol arferol. Mae llai o gyfarfodydd, ac nid yw rhai pwyllgorau wedi cael eu galw. Bydd y rheiny sydd wedi cael eu galw wedi canolbwyntio ar faterion sy'n hanfodol bwysig o safbwynt busnes y cyngor, a bydd angen penderfyniadau sydyn. Mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda llai o aelodau'n rhan ohonynt, ar ôl cytuno ar gydbwysedd gwleidyddol gyda grwpiau gwleidyddol.

Bydd angen i aelodau baratoi'n drylwyr ar gyfer y newidiadau hyn a chanolbwyntio ar y canlyniadau sydd eu hangen. Mae'n bosib na fydd amser ar gyfer trafodaeth helaeth a bydd angen i aelodau ddeall gwybodaeth ac adroddiadau'n drylwyr cyn y cyfarfod. Mae'n ddefnyddiol i aelodau gael trafodaethau o flaen llaw, cyfarfodydd o bell o flaen llaw, neu sesiynau briffio yn ogystal â chyfarfodydd pwyllgorau ffurfiol. Dylai aelodau o bwyllgorau lled-farnwrol, fel arfer, fod yn ofalus rhag cyn-benderfynu.

Mae dirprwyo penderfyniadau mewn rhai meysydd yn golygu bod angen i uwch swyddogion weithio'n agos gydag arweinwyr portffolios a chadeiryddion pwyllgorau. Mae'n bosib y bydd angen datblygu prosesau craffu sydyn ac wedi eu symleiddio (ond heb fynd drwy bwyllgorau ffurfiol o reidrwydd) er mwyn sicrhau bod datblygiad a phenderfyniadau polisi yn cael eu cefnogi gan ymchwil a her effeithiol, gan flaenoriaethu'r materion sydd yn achosi'r perygl mwyaf i'r awdurdod.

Mae gan swyddogion gyfrifoldebau gwahanol, neu gyfrifoldebau lefel uwch. Ni all aelodau ddisgwyl y bydd pethau'n digwydd fel arfer, yn hytrach bydd llai o gymorth pwyllgora ar gael, bydd adroddiadau yn fwy cryno ac mae dulliau llai ffurfiol wedi'u canfod i roi gwybodaeth i aelodau, fel sesiynau briffio i'r holl aelodau. Mae angen addasu'r broses ddemocrataidd a gwleidyddol rywfaint yn ystod y cyfnod hwn a bydd angen gwaith grŵp adeiladol, yn enwedig lle mae angen galw cyfarfodydd ar fyr rybudd ac y bydd angen ateb gofynion cworwm. Mae angen peth amynedd ar gyfer cyfarfodydd rhithiol / o bell, ac maent yn fwy effeithiol o lawer pan fydd aelodau yn dangos parch tuag at ei gilydd ac at y Cadeirydd.

Cadeiryddion Pwyllgorau

Mae Cadeiryddion yn newid eu harddulliau a'u dulliau gweithio. Mae amserlenni yn dynnach, ac mae angen i gadeiryddion weithio'n agos gydag aelodau a swyddogion eraill ar waith lle nad oes angen yr holl bwyllgor i fod yn rhan ohono. Mae angen i Gadeiryddion hefyd weithio gyda swyddogion i helpu aelodau i ddeall y gwahanol ffyrdd o weithio, rheoli eu disgwyliadau, a sicrhau fod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Dylai Cadeiryddion a swyddogion gytuno a chynghori aelodau o'r gwahanol 'reolau trafod' cyn pob cyfarfod. Gallai hyn gynnwys:

- Distewi eu hoffer / ffôn pan na fyddant yn cyfrannu
- Parch rhwng yr holl gyfranogwyr
- Dilyn trefn yr wyddor i ddod ag aelodau i mewn i'r drafodaeth o dan gyfarwyddyd llym y cadeirydd (drwy enwau cyfranogwyr yn ôl trefn yr wyddor - i fod yn deg â'r holl gyfranogwyr, efallai y byddai'n addas mynd o A - Z ar gyfer un rhan o'r cyfarfod ac o Z - A ar gyfer rhan arall)
- Osgoi ailadrodd ble bo'n bosib
- Parchu'r cadeirydd ac aros eu tro i gael eu galw
- Dulliau pleidleisio, er enghraifft galw pob enw yn ôl trefn yr wyddor, a rhoi'r ateb 'o blaid' neu 'yn erbyn'

Mae hefyd yn bwysig cael eglurder ynglŷn â sut dylai aelodau'r pwyllgor godi materion yn ystod y cyfarfodydd, un ai drwy e-bost o flaen llaw neu drwy e-bost, y swyddogaeth 'llaw i fyny', neu sgwrs ar-lein yn ystod y cyfarfod, yn dibynnu ar y system sy'n cael ei defnyddio.

Cymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell

Fel y rhan fwyaf o bobl ar hyn o bryd, mae aelodau'n gorfod dod i arfer â thechnoleg sy'n anghyfarwydd iddynt. Mae swyddogion Gwasanaethau Democraidd wedi darparu hyfforddiant a chanllawiau, yn aml un i un. Mae'r awgrymiadau canlynol wedi bod yn ddefnyddiol wrth baratoi aelodau ar gyfer gweithio o bell. Mae'r rhan fwyaf o aelodau yn gallu cael mynediad i gynadledda fideo bellach. Ar hyn o bryd, Microsoft Teams yw'r platfform a ddefnyddir amlaf, er bod Zoom, Webex a GoToMeeting yn cael eu defnyddio hefyd.

Awgrymiadau i gyfranogwyr

1. **Offer** – sicrhewch fod yr offer priodol gennych chi. Mae cyfrifiaduron personol a gliniaduron yn tueddu i ddarparu platfform mwy corfforol gadarn. Bydd angen camera arnoch chi. Gall clustffonau eich helpu i glywed yn gliriach, bydd pensetiau hefyd yn lleihau sŵn cefndirol neu ymyrraeth nad ydych chi'n ymwybodol ohono o bosibl.
2. **Paratoi ar gyfer cyfarfodydd:**
 - Bydd angen gwybod sut i ymuno â'r cyfarfod, ymarferwch o flaen llaw i wirio bod modd i chi ymuno â'r cyfarfod. Cymerwch ran mewn unrhyw brofion.
 - Bydd angen gwybod sut i addasu eich gosodiadau, er enghraifft sensitifrwydd microffon a lefelau sain.
 - Bydd angen gwybod sut i gyhoeddi eich bod yn bresennol os na chaiff hyn ei wneud yn awtomatig.
 - Bydd angen gwybod sut i ddistewi / dad-ddistewi eich offer – mae hyn yn bwysig iawn.

- Bydd angen gwybod sut i gymryd rhan mewn unrhyw sgysiau all-lein allai fod yn rhedeg ochr yn ochr â'r cyfarfod e.e. drwy negeseuon testun, e-bost neu sgysiau ar-lein.
 - Bydd angen gwybod sut i baratoi ffeiliau a dogfennau a rhannu eich sgrin fel bodd modd i chi alluogi pobl eraill i weld dogfennau neu luniau.
 - Bydd angen gwybod beth i'w wneud os yw eich offer yn torri, bod â rhif ffôn wrth law rhag ofn i chi gael trafferthion technegol.
3. Bydd angen sicrhau bod eich offer wedi eu gwefru yn ddigonol, gall cyfarfodydd hirion ddefnyddio llawer o fatri.
 4. Paratowch yn drylwyr. Bydd y cadeirydd yn cymryd yn ganiataol fod pawb wedi darllen unrhyw adroddiadau sy'n cael eu hystyried, ac yn chwilio am sylwadau a thrafodaeth eglur.
 5. Ffoniwch o leoliad hollol dawel os yn bosib. Hyd yn oed os gallwch ddistewi eich offer, tra rydych yn siarad, bydd pawb yn y telegynhadledd yn gallu clywed pob sŵn rydych chi, eich plant, eich anifeiliaid anwes, a'r adar yn eich gardd yn ei wneud.
 6. Sicrhewch y gallwch weld y papurau. Os ydych yn defnyddio copïau wedi eu hargraffu, ceisiwch beidio eu cyffwrdd ormod pan fyddwch heb ddistewi eich ffôn. Cofiwch y gallwch edrych ar bapurau drwy ddefnyddio dwy ddyfais neu drwy rannu eich sgrîn. Fel arfer gellir rhannu papurau trwy rannu sgrin.
 7. Ffoniwch o safle cyfforddus, gan y gall y cyfarfod barhau am beth amser, sicrhewch fod gennych wydraid o ddŵr gerllaw.

Cymryd rhan mewn cyfarfodydd

8. Ffoniwch i mewn ar amser. Ffoniwch i mewn ychydig funudau cyn i'r cyfarfod ddechrau fel y gall y cyfarfod ddechrau ar amser. Bydd cyfranogwyr yn gwybod pwy sy'n ymuno'n hwyr, a phan fydd galwyr yn ymuno â chyfarfod neu'n gadael, a gall hyn amharu ar bethau.
9. Peidiwch â gweiddi, addaswch lefel y sain fel bo'r angen.
10. Diffoddwch unrhyw declynnau swnllyd fel ffonau symudol, a allai darfu arnoch chi neu unrhyw gyfranogwyr eraill. Gall rhain achosi ymyrraeth hefyd.
11. Gwiriwch y gallwch weld cadeirydd y cyfarfod.
12. Canolbwyntiwch ar y busnes sydd i'w drafod. Sicrhewch bod eich cyfraniadau yn angenrheidiol ac o ddefnydd i gyflawni'r canlyniadau y mae'r pwyllgor yn eu ceisio.
13. Cofiwch mai dim ond chi ddylai allu clywed eitemau cyfrinachol ac eithriedig a gaiff eu trafod.
14. Sicrhewch eich bod yng nghanol y sgrin drwy osod eich dyfais neu'ch camera'n briodol ac edrych i mewn i'ch camera. Anelwch i gael llun pen ac ysgwyddau, tebyg i lun pasbort.
15. Os yw'n gyfarfod ffurfiol neu gyhoeddus, efallai bydd yn edrych yn fwy priodol eistedd i fyny'n syth wrth arwyneb gwaith yn hytrach nag eistedd ar soffa gyda gliniadur ar fwrdd coffi, ond gall manau gweithio gartref fod yn gyfyngedig wrth gwrs.
16. Cadwch eich dyfais yn llonydd ac ar arwyneb gwastad.

17. Ystyriwch eich ymddangosiad personol, bydd pobl eraill yn eich gweld drwy gydol y cyfarfod.
18. Ystyriwch y cefndir - mae rhai apiau yn caniatáu i chi gymylu'r cefndir, fel nad oes unrhyw fanylion yn cael eu dangos, neu efallai fod gan eich Cyngor gefndir corfforaethol i chi ei ddefnyddio. Fel arall, ceisiwch fod o flaen wal blaen gan y gallai eich silffoedd llyfrau neu hysbysfwrdd aflonyddu ar gyfranogwyr eraill y cyfarfod. Mae'n bosib y byddai gennych wybodaeth gyfrinachol neu amhriodol ar y wal y tu ôl i chi.
19. Ystyriwch y golau, a oes digon o olau i bobl eich gweld? A oes gormod o haul neu olau artiffisial yn eich wyneb?
20. Gofynnwch i aelodau o'r teulu aros i ffwrdd o'r camera gan fod pobl yn cerdded o gwmpas yn gwneud coffi yn gallu aflonyddu.
21. Gwiriwch sut bydd y cadeirydd yn galw arnoch i siarad.
22. Gwiriwch sut byddwch yn dangos eich bod am siarad.
23. Os ydych chi'n defnyddio'r nodwedd 'llaw i fyny' i ofyn cwestiwn, sicrhewch eich bod yn ei ddiffodd pan na fyddwch am siarad.
24. Cofiwch y gallai cyfarfodydd, os nad ydynt yn fyw, gael eu rhoi ar wefannau cyhoeddus, felly mae'n bwysig ymddwyn fel pe baech mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus. Mae rhai apiau yn gallu dangos beth bynnag sydd ar eich sgrîn i gyfranogwyr eraill y cyfarfod, gallai'r cyhoedd weld hyn hefyd.
25. Peidiwch â gadael y cyfarfod nes bydd wedi gorffen heb roi gwybod i'r cadeirydd a chofiwch ymddiheuro ac egluro eich rhesymau dros adael yn gynnar.

Awgrymiadau i Gadeiryddion

Gall cadeirio cyfarfodydd o bell fod yn heriol. Gallech ystyried y canlynol:

1. Sicrhewch eich bod yn bersonol barod, fel y nodir uchod ar gyfer cyfranogwyr, ac yn trefnu cyfarfodydd o flaen llaw gyda swyddogion ac aelodau os oes angen.
2. Ymunwch â'r cyfarfod yn gynnar er mwyn gwirio bod pawb yn bresennol a'u cyfarch yn bersonol wrth iddynt ymuno.
3. Ystyriwch drefnu amser cymdeithasol ar ddechrau neu ar ddiwedd y cyfarfod fel bod modd i aelodau ddal i fyny â'i gilydd.
4. Gwiriwch ar y dechrau fod pawb yn gallu cymryd rhan ac nad oes unrhyw un yn cael problemau o safbwynt gweld y papurau, sicrhewch eich bod yn gwybod pa ddulliau cyfathrebu i'w defnyddio ar gyfer trafodaethau all-lein gydag aelodau eraill o'r grŵp er enghraifft.
5. Atgoffwch gyfranogwyr y dylent ddistewi eu hoffer pan na fyddant yn siarad.
6. Rhowch arweiniad o ran sut dylai aelodau nodi eu bod am siarad, rhoi sylw neu bleidleisio.
7. Sicrhewch y gall yr holl gyfranogwyr eich gweld os yw hyn yn bosib, efallai drwy osod eich hun fel yr un sy'n galw'r cyfarfod.
8. Ar gyfer cyfarfodydd mwy, mae'n bosib yr hoffech weithio gyda swyddog galw er mwyn mynd i'r afael ag ymarferoldeb y cyfarfod.
9. Sicrhewch mai dim ond at ddibenion busnes y cyfarfod y mae aelodau yn defnyddio unrhyw adnoddau 'sgwrsio'.

10. Cadwch at y gofynion arferol ond ystyriwch ffyrdd o symleiddio prosesau fel darllen ymddiheuriadau eich hun yn hytrach na gofyn i swyddogion eu darllen.
11. Er mwyn atal pobl rhag siarad ar draws ei gilydd, ac osgoi tawelwch hir, gofynnwch i bob aelod yn eu tro am eu cyfraniad i eitem. Mae'n bosib yr hoffech wneud hyn yn ôl trefn yr wyddor.
12. Gwiriwch bob hyn a hyn drwy gydol y cyfarfod nad oes unrhyw un wedi ei 'gollu' oherwydd problemau technegol.
13. Talwch fwy o sylw nag arfer i fframio'r cyfarfod gan atgoffa cyfranogwyr o ddiben pob eitem ar y rhaglen a chrynhoi'r penderfyniadau a'r camau gweithredu ar gyfer pob eitem eto ar ddiwedd y cyfarfod.
14. Gwiriwch ar ddiwedd pob eitem ar y rhaglen bod pob aelod yn hapus eu bod wedi gallu cyfrannu.
15. Byddwch yn fwy trylwyr nag arfer o ran mynnu bod aelodau yn canolbwyntio ar y mater sy'n cael ei drafod, a pheidiwch gwastraffu amser gyda chyfraniadau amherthnasol neu gytuno gyda chyfraniadau blaenorol.
16. Trefnwch egwyliau lluniaeth.
17. Gwerthuswch y cyfarfod ar y diwedd er mwyn cael awgrymiadau am sut i wella yn y dyfodol.

Lles

Er bod cymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell yn llai beichus na theithio i leoliad, gall cyfarfodydd rhithiol gyflwyno heriau gwahanol. Wrth gymryd rhan mewn cyfarfod traddodiadol, mae cyfle am gyswllt cymdeithasol a newid eich barn. Gall canolbwyntio ar sgrin am gyfnodau hir achosi straen ar eich llygaid a chur pen. Gall canolbwyntio dwys eich blino'n feddylol. Gall peidio symud achosi poen yn y cyhyrau neu boen cefn. Efallai bydd aelodau am roi ystyriaeth i'r pethau canlynol er mwyn osgoi'r problemau hyn.

- Trefnu sesiynau dal i fyny anffurfiol gydag aelodau eraill a swyddogion rhwng cyfarfodydd er mwyn cynnal perthnasoedd y tu allan i gyfarfodydd
- Trefnu egwyliau rheolaidd rhwng cyfarfodydd
- Symud yn rheolaidd, hyd yn oed i redeg i fyny ac i lawr y grisiau neu i wagio'r peiriant golchi
- Trefnu cyfnod ymarfer corff yn yr awyr agored bob dydd
- Yfed digon o ddŵr
- Tynnu eich llygaid oddi ar y sgrin yn rheolaidd, a gwneud ymarferion i'r llygaid o bosibl
- Gosod man gweithio 'swyddogol' â chadair gyfforddus, lle gallwch ei adael pan nad ydych yn gweithio.

Dychwelyd at Graffu

Yn ystod misoedd cyntaf argyfwng COVID 19, cafodd y rhan fwyaf o gyfarfodydd y cyngor eu gohirio wrth i ni aros am gyflwyno trefniadau presenoldeb o bell, ac mae rhaglenni gwaith i'r dyfodol cabinetau a phwyllgorau craffu wedi'u gohirio ar y cyfan, neu eu hail flaenoriaethu i ganolbwyntio ar benderfyniadau brys. Mae cynghorau wedi blaenoriaethu dychwelyd at drefniadau gwneud penderfyniadau, fel cabinet a phwyllgorau cynllunio, fodd bynnag mae trefniadau craffu wedi'u heffeithio'n benodol, yn dilyn adleoli staff ac adnoddau. Mae'n

bosibl y bydd swyddogion cefnogi craffu wedi'u hadleoli i wasanaethau'r rheng flaen, gan weithio oriau hir, a datblygu sgiliau newydd i gefnogi, er enghraifft, pobl ddiamddiffyn sydd mewn perygl penodol. Mae uwch swyddogion wedi cael llai o amser i baratoi adroddiadau a fyddai wedi'u hystyried fel arfer gan bwyllgorau craffu.

Er nad yw cyfarfodydd pwyllgorau craffu traddodiadol wedi bod yn bosibl, mae rhai cynghorau wedi hwyluso proses oruchwylio a chraffu gan aelodau trwy gyfarfodydd ar y cyd rhwng pwyllgorau, wedi sefydlu pwyllgorau newydd Covid 19, neu wedi darparu sesiynau briffio i'r holl aelodau neu i'r pwyllgorau craffu. Yn aml, ymgynghorwyd â chadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu neu maent wedi cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau brys. Mae nifer o awdurdodau wedi cynnal cyfarfodydd craffu o bell, a bydd y rhan fwyaf wedi ailgyflwyno cyfarfodydd craffu rheolaidd erbyn mis Medi, ac maent wrthi'n adolygu eu rhaglenni gwaith.

Yn amlwg, mae rôl hanfodol i'r swyddogaeth graffu ar hyn o bryd, o ran sicrhau bod y penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud ar frys yn rhai cywir, yn gweithio i gymunedau ac wedi'u gwneud mewn ymgynghoriad â phreswylwyr a budd-ddeiliaid eraill. Yn yr awdurdodau lle mae craffu wedi'i ailgyflwyno, mae pwyllgorau wedi bod yn goruchwylio, herio'n adeiladol a gwneud awgrymiadau am sut mae cynghorau'n ymateb i bandemig Covid, cynllunio ar gyfer adfer a chynnal arloesedd. Er enghraifft:

- Cefnogaeth i gymunedau, fel darparu parseli bwyd, cefnogaeth ar gyfer pobl ddiamddiffyn a phobl sydd ar restr warchod, tensiynau cymunedol, digartrefedd ac ymgysylltu â'r gymuned, cefnogaeth ar gyfer Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid a chydlynu gwirfoddolwyr.
- Gofal cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd, fel gwasanaethau gofal, Profi Olrhain Diogelu, paratoi ar gyfer ail don.
- Yr economi leol, fel cefnogaeth ar gyfer busnesau bach, ailagor cyrchfannau i dwristiaid, mesur effaith economaidd y feirws, cefnogaeth ar gyfer y diwydiant adeiladu a meithrin cadernid ar gyfer argyfyngau'r dyfodol.
- Blaenoriaethau sefydliadol, fel lles staff, gweithio gartref, cyflogaeth ac adleoli, sicrhau a gweithredu arloesedd a gwersi a ddysgwyd o gyfnod Covid, dulliau newydd o drin ymgysylltiad democrataidd a chyfarfodydd hyblyg.
- Addysg, fel dychwelyd i'r ysgol, trefniadau cludiant i'r ysgol a phrydau ysgol am ddim.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn awgrymu wrth i'r argyfwng ddechrau llacio, y bydd gan graffu rôl arweiniol o ran ailffurfio'r sefydliad ...a gall herio cynghorau i fod yn arloesol a chreadigol." Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus [yma](#).

Mae cyfleoedd unigryw ar gael nawr ar gyfer arloesedd yn y swyddogaeth graffu ei hun. Cyn Covid, roedd cynghorau yn gweithio i wella swyddogaeth graffu yng Nghymru a ddisgrifiwyd gan Archwilio Cymru fel ei fod yn aneglur am ei rôl ac yn ddiffygiol o ran effaith oherwydd dulliau rhy ffurfiol a strwythuredig. Mae cyfle nawr i gyflymu'r newidiadau hyn ac ailfeddlw ac ailosod sut rydym ni'n craffu.

Symud Ymlaen

Mae arfer o ran cyfarfodydd wedi datblygu'n sylweddol ers dechrau'r trefniadau newydd. Fel gyda sawl agwedd r fusnes y cyngor, bu dysgu ac arloesedd sylweddol. Mae

Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CLILC a chynghorau i adlewyrchu newidiadau defnyddiol mewn deddfwriaeth newydd fel y bydd gan gynghorau ragor o hyblygrwydd yn y dyfodol. Mae trefniadau cyfarfod hyblyg fel pe baent wedi galluogi i fwy o aelodau fynychu a byddant yn galluogi i amrywiaeth ehangach o bobl fynd am swyddi. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i leihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd hefyd, gan eu gwneud yn fwy effeithiol trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau a chynwysoldeb yn hytrach na phroses a thraddodiad.

Ac, fel y mae Huw Lloyd Jones o Archwilio Cymru yn arsylwi yn ei flog [yma](#)

“Mae'n bosibl y bydd cyfarfodydd rhithwir hefyd yn cynnig mwy o fuddion yn y tymor hir, er enghraifft trwy leihau amser teithio cynghorwyr, costau ac effaith amgylcheddol gysylltiedig. Yn ogystal, mae gan we-ddarlledu cyfarfodydd yn fyw y potensial i gynyddu hygrychedd cyhoeddus ac ymgysylltu â busnes y cyngor.”